Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnoddau:

## Paru'r anifail

Printiwch cyn lamineiddio a'u torri'n gardiau unigol.

**gwahadden/ twrch daear**



Mae gen i ffwr melfedaidd ac rwy'n dda iawn am dyllu a thwnelu danddaear.

Mae fy mhawennau blaen yn wych i rawio, a'm trwyn yn helpu i lacio'r pridd.

Twnnel neu gaer yw fy nghartref.

Rydw i'n byw dan ddaear yn fy rhwydwaith o dwneli a siambrau. Weithiau, gallwch weld pentwr o bridd ar y tir wedi i mi fod yn palu.

Ar ddiwedd fy nhwnnel, mae siambr fawr glyd llawn glaswellt a dail sych sy'n addas i nythu a chysgu.



Rydw i'n hoff o fwyta mwydod tew a phryfaid o bob math sy'n byw yn y pridd.

Rydw i'n gallu eu synhwyro nhw'n disgyn i un o'm twneli, diolch i'm wisgers a blew hynod sensitif fy nghynffon.

Baedd yw enw'r gwryw, a hwch yw'r fenyw.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnoddau:

## Paru'r anifail

Printiwch cyn lamineiddio a'u torri'n gardiau unigol.

gwiwer




Mae gen i draed cryf, crafangau miniog a chynffon fawr flewog i'm helpu i ddringo a chydbwyso.

Rydw i'n greadur hynod acrobatig.

Nyth yw fy nghartref.

Mae fy nyth siâp pêl-droed wedi'i gwneud o frigau, dail, glaswellt sych a rhisgl mân, ac yn fforch y goeden yn aml.



Mês, cnau, hadau, ffyngau, rhisgl, dail a blagur yw fy hoff fwydydd.

Yn yr hydref, rydw i'n cuddio fy nghelc o fwyd er mwyn cael digon i'w fwyta dros y gaeaf. Nid wyf yn gaeafgysgu.

Bwch yw enw'r gwryw, ac ewig yw'r fenyw.

Enwir y babi yn genau, cath fach neu gi bach.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnoddau:

## Paru'r anifail

Printiwch cyn lamineiddio a'u torri'n gardiau unigol.

**daear/broch**



Creadur y nos ydw i ac mae'n hawdd fy adnabod gyda'n hwyneb du a gwyn trawiadol.

Mae'n gen i drwyn da iawn a synnwyr arogli sydd o gymorth i chwilio am fwyd, gwybod pryd mae yna berygl ac adnabod fy ffrindiau.

Gwâl neu ddaear yw enw fy nghartref.

Rydw i'n byw gydag eraill yn ein drysfa o dwneli danddaear, ac mae gen i ystafell wely fy hun wedi'i gorchuddio â glaswellt a dail sych.


© Derek Harper

Rydw i'n hoffi bwyta llawer o bethau fel mwydod, malwod duon, pryfed, mamaliaid bach, ffrwythau a sbarion.

Baedd ydi'r gwryw.

Hwch yw'r fenyw.

A chenau yw'r enw'r babi.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnoddau:

## Paru'r anifail

Printiwch cyn lamineiddio a'u torri'n gardiau unigol.

**draenog**



Mae gen i sbigynnau ar fy nghefn, ac rwy'n rholio'n bel pan fyddaf dan fygythiad.

Rydw i fwyaf gweithgar yn y nos, ac mae gen i goesau syndod o hir i gymharu â fy nghorff sy'n fy helpu i ddringo, rhedeg a nofio.

Rydw i'n byw mewn nyth.

Rydw i'n cysgu dros y gaeaf, ac yn hoff o swatio a chyrlio'n belen mewn nyth.

Gall fod wedi'i gwneud o ddail a glaswellt, mewn pentwr o goed neu flwch nythu pren hyd yn oed.



Dwi'n bwyta bob math o bethau: mae chwilod, lindys, mwydod a gwlithod ac ambell wy aderyn neu froga yr un mor flasus i mi.

Baedd yw'r gwryw.
Hwch yw'r fenyw.
A draenog bach yw'r babi.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnoddau:

## Paru'r anifail

Printiwch cyn lamineiddio a'u torri'n gardiau unigol.

**cadno/llwynog**



Mae gen i synnwyr arogli da a dannedd miniog. Rydw i'n gallu gweld yn dda a chlywed yn wych.

Mae fy nghoesau cryf o gymorth i redeg yn gyflym a dal fy mhrae.

Ffau neu wâl yw enw fy nghartref.

Mae gen i sawl ffau o fewn fy nhiriogaeth, y rhan fwyaf wedi'u creu a'u tyllu gan greaduriaid eraill. Rydw i'n defnyddio'r ffau fwyaf yn ystod y gaeaf, a'r lleill ar gyfer unrhyw argyfwng neu i storio bwyd.



Bydda i'n bwyta pob math o bethau, fel adar bach, cwningod, mwydod aeron a danteithion diddorol o finiau sbwriel pobl.

Cadnawes neu lwynoges yw'r fenyw.

Llwynog neu gadno yw'r gwryw.

Cenau yw'r gair am y babi.